ysbrydoli pobl, newid bywydau

Ein pwrpas: trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd.

Ein hymrwymiadau

Gwneud gwahaniaeth i Gymru: newid bywydau trwy weithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol i greu Cymru hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, lle mae diwylliant yn hygyrch i bawb a'r economi'n ffynnu.

Profiad amgueddfa: mae ymwelwyr yn cael profi amgueddfeydd, arddangosfeydd, a gofodau cyhoeddus o ansawdd uchel lle gallant ddysgu a mwynhau.

Profiad digidol: mae defnyddwyr yn cael profi amgueddfa ddigidol hygyrch a chydgysylltiedig gan ymgysylltu, bod yn greadigol a dysgu.

Addysg a chreadigrwydd: mae gan bawb gyfoeth o gyfleoedd i ddysgu, ymchwilio a chreu.

Cyfranogiad a chynhwysiant: mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trawsddiwylliannol, cynhwysol a hygyrch a luniwyd ganddynt.

Sut y byddwn yn eu cyflawni

Projectau gweddnewid: cynllunio a chyflawni projectau sy'n gweddnewid ein gwasanaethau a'r ffordd rydym yn eu darparu.

Eiriolaeth a chyfathrebu: hyrwyddo a marchnata ein gwaith gwerthfawr ac amrywiol yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Amgueddfa ddigidol gydgysylltiedig: gwella ansawdd, hygyrchedd ac argaeledd ein casgliadau a'n gwasanaethau digidol.

Partneriaethau strategol: meithrin partneriaethau corfforaethol a chydweithio er mwyn cynyddu effeithiolrwydd ein gwaith a gwaith ein partneriaid.

Rhaglenni cyhoeddus: cynllunio a darparu arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ysbrydoli, yn ein hamgueddfeydd a thu hwnt.

Datblygu gwybodaeth: ymestyn ein gwybodaeth o'n casgliadau a'n cynulleidfaoedd trwy ymchwil academaidd a gwaith dadansoddi gwreiddiol ac annibynnol sy'n diwallu anghenion y cyhoedd a'r sefydliad.

Perfformiad ariannol a llywodraethu: llwyddo i berfformio, llywodraethu a rheoli arian yn ardderchog a gwella ein cynaliadwyedd ariannol.

Sut y byddwn yn newid

Ein pobl: datblygu sgiliau ein staff a'n gwirfoddolwyr a meithrin eu doniau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau o safon uchel.

Ein diwylliant: datblygu diwylliant o arloesi ac arwain rhagorol sy'n hyrwyddo gwasanaeth cyhoeddus, cyfathrebu a gwelliant parhaus ar bob lefel.

Ein systemau: datblygu ein systemau, ein prosesau a'n technoleg er mwyn gwella ein heffeithiolrwydd a diwallu anghenion newidiol ein hymwelwyr.

Ein casgliadau: datblygu a gofalu am y casgliadau cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn hygyrch, heddiw ac yn y dyfodol.

Ein seilwaith: buddsoddi yn ein seilwaith er mwyn sicrhau amgylchedd diogel a chynaliadwy ar gyfer ein staff, y cyhoedd a'r casgliadau.